



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar
Dydd Iau, 25ain Chwefror, 2021 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor
(Rhif ffôn. 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2021 a 28 Ionawr 2021 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 16)

3. CYTUNDEB DINESIG I BRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD - PUM MLYNEDD YN DDIWEDDARACH

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhoi diweddariad am gynnydd Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ('CCR') (y 'Cabinet Rhanbarthol' - cyd-bwyllgor), i oruchwylio twf economaidd y Rhanbarth ac i gyflawni'r ymrwymadau a nodir ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

(Tudalennau 17 - 126)

4. YMATEBION I YMGYNGHORIAD YR ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet am yr ymatebion sy'n deillio o ymgynghoriad yr Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn perthynas â Rhestr Rheoliad 123 y Cyngor.

(Tudalennau 127 - 132)

5. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 – DEFNYDD O'R DDEDDF YN 2019-20 GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF A PHOLISI GORFODI CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n galluogi Aelodau i adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) ('RIPA') am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 i 31 Rhagfyr 2020, gan gynnwys ymateb i ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO); a'r Ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Corfforaethol newydd ar Gaffael Data Cyfathrebu o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA).

(Tudalennau 133 - 156)

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYDWASANAETH MABWYSIADU RHANBARTHOL 2019-2020

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydwasaeth Mabwysiadu Rhanbarthol 2019-2020.

(Tudalennau 157 - 198)

7. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - Y DIWEDDARAF AM GYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM CYNON

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet am y prosiectau i wella addysg yng Nghwm Cynon, yn dilyn yr adroddiad a ddaeth gerbron y Cabinet ym mis Medi 2018.

(Tudalennau 199 - 206)

**8. ADOLYGIAD O DDARPARIAETH YSGOLION ARBENNIG YNG
NGHYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am ymarfer casglu data a gynhaliwyd er mwyn hwyluso adolygiad manwl o ddarpariaeth ysgolion arbennig ledled y Fwrdeistref Sirol.

(Tudalennau 207 - 220)

**9. DIWEDDARIAD AR WEITHREDU DEDDF TRIBIWNLYS ANGHENION
DYSGU YCHWANEGOL AC ADDYSG (2018) YNG NGHYNGOR
BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet am weithrediad Deddf ALNET (Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg) (2018) a darparu gwybodaeth i'r Cabinet am oblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd i'r Cyngor o safbwynt lleol.

(Tudalennau 221 - 230)

10. POLISI FFIOEDD A THALIADAU'R CYNGOR 2021/22

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno adolygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2021/22, (pob un i'w gweithredu o 1 Ebrill 2021 ymlaen neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny).

(Tudalennau 231 - 238)

11. CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2021/22

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno'r cynigion sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ar gyfer ail gam yr ymgynghoriad o'r gyllideb, er mwyn i'r Cabinet drafod strategaeth gyllideb ddrafft y bydden nhw'n dymuno ei chyflwyno i'r Cyngor, a'i diwygio yn ôl yr angen.

(Tudalennau 239 - 298)

12. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2021/22–2023/24

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet raglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2021/22 hyd at 2023/24, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

(Tudalennau 299 - 320)

13. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**14. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2018/23:
GWYBODAETH INTERIM**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd yn erbyn themâu allweddol y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23.

(Tudalennau 321 - 344)

15. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr:

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

Swyddogion:

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella